# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Waunfawr
## Waunfawr
## Gwynedd
## LL55 4LJ

**Rhif yr Ysgol: 6612113**

**Dyddiad yr Arolygiad: 28/04/09**

**gan**


**Jean Marshall**
**78668**



**Dyddiad Cyhoeddi: 02/07/09**
**O dan rif contract Estyn: 1117908**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

94 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol. Trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi ei mapio'n fanwl ar draws yr ysgol, sesiynau rheolaidd o 'amser cylch' a'r Cyngor Ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i drafod, cwestiynu a dod i benderfyniad ar faterion moesol a chymdeithasol, ac i ddylanwadu'n effeithiol ar rai agweddau o fywyd dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r gwerthoedd sy'n cael eu meithrin gan yr ysgol a'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i helpu eraill, i gyd fyw, ac i feithrin parch at amrywiaeth mewn cymdeithas yn rhagoriaeth amlwg. Caiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn ethos yr ysgol ac yn safonau ymddygiad rhagorol y disgyblion.